| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **12, MAI, 2011** |
| **TESTUN** | **PENODIAD I'R PWYLLGOR SAFONAU.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS,**<br>**SWYDDOG MONITRO.** |

1. Mae 9 aelod ar y Pwyllgor Safonau, sef 3 cynghorydd o Gyngor Gwynedd, 1 aelod i gynrychioli Cynghorau Cymuned a 5 aelod annibynnol.

2. Mae angen ethol un cynghorydd o Gyngor Gwynedd i'r pwyllgor i gymryd lle'r Cynghorydd Stephen Churchman sydd wedi dod yn aelod o Fwrdd y Cyngor. Nid yw'r penodiad i'w wneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae copi o ofynion y swydd i'w cael yn Atodiad 'A'.

3. Yn dilyn gwahoddiad agored i holl aelodau'r Cyngor (ac eithrio aelodau'r Bwrdd) i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, derbyniwyd mynegiant o ddiddordeb gan 3 aelod.

4. Yn unol â'r trefniadau a gymeradwywyd gan y Cyngor, cyfarfu arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i ystyried y ceisiadau.

5. Wrth ddefnyddio'r meini prawf a osodwyd ar gyfer aelodau y Pwyllgor Safonau ynghyd ag ystyried cynnwys y ceisiadau a phrofiad, penderfynodd yr Arweinyddion argymell i'r Cyngor y dylid penodi'r Cynghorydd Eryl Jones Williams i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

6 **ARGYMHELLIAD.**

Gofynnir i'r Cyngor benodi y Cynghorydd Eryl Jones-Williams i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am weddill tymor y Cyngor hwn.

At: Aelodau Cyngor Gwynedd
To: Gwynedd Council members

Annwyl Gynghorydd,

**Penodi Aelodau'r Pwyllgor Safonau**

Mae un o'r seddi sydd ar gael i aelodau etholedig y Cyngor ar y Pwyllgor Safonau yn wag ar hyn o bryd. Rwyf yn ysgrifennu felly at bob aelod o'r Cyngor i ofyn am geisiadau i'w llenwi.

Y meini prawf a osodwyd gan y Cyngor ar gyfer dewis aelodau i'r Pwyllgor yw:

- Sgiliau gwrando;
- Y gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth;
- Y gallu i ffurfio barn wrthrychol a'i hesbonio drwy gyfeirio at y dystiolaeth;
- Sgiliau gweithio mewn tîm;
- Parchu pobl eraill a dealltwriaeth o ystyriaethau gwahaniaeth;
- Disgresiwn;
- Uniondeb Personol.

Bydd yr aelod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o ddim mwy na phedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol cyffredin nesaf yn dilyn eu penodiad, p'un bynnag fo'r byrraf. Bydd yn gymwys hefyd i wasanaethau am un cyfnod dilynol pellach. Dylid nodi nad yw aelodau o'r Bwrdd yn gymwys i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Safonau.

Os oes gennych ddiddordeb cael eich penodi i'r sedd hon, ysgrifennwch ataf drwy lythyr neu e-bost **erbyn 26 Ebrill 2011 fan hwyraf**. Wrth ysgrifennu dylech egluro paham eich bod yn gymwys ar gyfer y swydd.

Dear Councillor,

**Appointments to the Standards Committee**

One of the seats available for elected members of the Council on the Standards Committee has become vacant. I am therefore writing to all members, seeking applications to fill this seat.

The criteria set by the Council for appointing members to the Committee are:

- Listening skills;
- Ability to understand and weigh up evidence;
- Ability to come to an objective view and explain it by reference to the evidence;
- Teamworking skills;
- Respect for others and an understanding of diversity issues;
- Discretion;
- Personal integrity.

The member will serve on the Committee for a period of not more than four years or until the ordinary local government elections next following their appointment, whichever is the shorter. The member will be eligible to serve for one further consecutive term. It should be noted that members of the Board are not eligible to be members of the Committee.

If you are interested in filling this vacancy, would you please write to me, by letter or e-mail **by 26 Ebrill 2011 at the latest**, explaining the reasons why you feel you are eligible.

Yn gywir,Yours faithfully

Siôn Huws

Swyddog Priodoldeb / Propriety Officer

sionh@gwynedd.gov.uk
DX 713560 CAERNARFON 5
Ffacs / Fax (01286) 679659

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk